Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: POLISI AELODAETH A STRWYTHUR BWRDD

Datganiad Polisi:

1. Rhoddir manylion y ffordd y mae'r Bwrdd Rheoli ac unrhyw Bwyllgor(au) yn gweithredu yn y "Polisi Aelodaeth" a "Gweithdrefn Bwrdd a Phwyllgor".

2. AELODAETH Y GYMDEITHAS

2.1. Bydd aelodaeth y Gymdeithas yn agored i unrhyw un sy'n talu £1 am gyfranddaliad, os nad yw'r unigolyn wedi ei wahardd gan y gyfraith.

2.2. Ni chaniateir i aelodau staff y Gymdeithas fod yn Aelodau o'r Gymdeithas.

2.3. Bydd y Gymdeithas yn gwneud pob ymdrech i annog Aelodaeth o'r Gymdeithas o bob rhan o'i hardal ddaearyddol o weithredu.

2.4. Mae Aelodaeth o'r Gymdeithas ymysg tenantiaid i gael ei annog yn gyson.

3. BWRDD RHEOLI

Rhoddir manylion y Cylch Gorchwyl a'r Bwrdd Rheoli yn y Rheolau Sefydlog.

3.1. Rôl Gyffredinol

Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas yw corff llywodraethu'r Gymdeithas ac mae'n gyfrifol am gyfeirio busnes y Gymdeithas yn unol gyda'i Hamcanion a Rheolau ar ran y cyfranddeiliaid, tenantiaid, aelodau o'r staff a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'n gweithredu rheolaeth dros a chyfrifoldeb am reolaeth y Gymdeithas.

Bod yn gyfrifol am lywodraethiant y sefydliad; cyfeirio a rheoli gwaith y Gymdeithas; penderfynu ar ei chyfeiriad strategol a pholisïau; sefydlu a goruchwylio fframweithiau rheolaeth a rheoli risg a sicrhau fod y Gymdeithas yn cyflawni ei nodau ac amcanion ac yn unol gyda gofynion y gyfraith, cyrff rheoleiddio ac arfer gorau.

Cydnabod y dylai rheolaeth ddydd i ddydd a gweithredu polisïau Bwrdd gael ei ddirprwyo i staff. **Rhoddir manylion o restr o awdurdodau a ddirprwywyd yn y Rheolau Sefydlog.**

Gweithredu yn llwyr er budd y Gymdeithas ac nid ar ran unrhyw etholaeth neu grŵp diddordeb a chynnal enw da'r Gymdeithas a'r gwerthoedd, amcanion ac egwyddorion y mae'n sefyll drostynt.

3.2. Yn unol gyda'i Rheolau, mae Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas yn cynnwys o leiaf saith a dim mwy na phymtheg o Aelodau (yn cynnwys aelodau cyfetholedig).

3.3. Gellir cyfethol uchafswm o bum person i'r Bwrdd o bryd i'w gilydd ar gyfer un ai ddiben neilltuol neu gyffredinol

3.4. Bydd unrhyw unigolyn (yn cynnwys tenantiaid) a etholir i'r Bwrdd yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y CCB pan y'u hetholir, cyn sefyll i lawr. Bydd angen i denantiaid sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd sefyll ar gyfer eu hail-ethol gan Denantiaid y Gymdeithas. Bydd Aelodau cyfranddaliog yn sefyll i lawr yn y CCB, ond gallant sefyll ar gyfer eu hailethol os dymunant. Dim ond am uchafswm o dri thymor (neu naw mlynedd) y gall unrhyw unigolyn wasanaethu ar y Bwrdd.

3.5. Bydd y Gymdeithas yn ymdrechu i annog Tenantiaid sy'n aelodau i sefyll am etholiad i'r Bwrdd. Gall hyd at draean o'r Bwrdd (gydag uchafswm o bedwar) fod yn denantiaid a gafodd eu hethol yn gywir gan denantiaid y Gymdeithas. Caiff y drefn ar gyfer ethol Tenantiaid ei phenderfynu gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

3.6. Estynnir gwahoddiadau i ymuno â'r Bwrdd Rheoli ar sail addasrwydd a gallu person. Bydd grŵp bychan o Aelodau, ynghyd â'r Prif Weithredwr, yn cyfweld â phob ymgeisydd, yn cynnwys Tenantiaid sy'n sefyll am etholiad. Lle nad yw ymgeisydd yn addas neu nad yw'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir o gymhwysedd, caiff eu cais ei wrthod. Yn achos Tenantiaid, ni chaniateir iddynt sefyll ar gyfer etholiad.

3.7. Caiff Aelodaeth y Bwrdd ei adolygu'n rheolaidd drwy broses werthuso ddwyflynyddol i sicrhau fod ei gyfansoddiad yn addas ar gyfer gweithgareddau presennol ac arfaethedig y Gymdeithas.

3.8. Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y Bwrdd Rheoli'n cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o ardal ddaearyddol gweithrediad y Gymdeithas.

3.9. Bydd pob Aelod (yn cynnwys Tenantiaid) yn eistedd ar y Bwrdd Rheoli fel unigolion ac nid fel cynrychiolwyr sefydliad neu garfan neilltuol.

3.10. Ni fydd y Gymdeithas yn ystyried aelodau o'i staff neu eu perthnasau agos fel Aelodau'r Bwrdd, gan y byddai'n anghyfreithlon i'r Gymdeithas gynnig Contract Cyflogaeth i Aelod o'r Bwrdd neu i berthynas agos.

3.11. Disgwylir i Aelodau'r Bwrdd weithredu ar bob amser er budd y Gymdeithas.

3.12. <u>Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd</u>

3.12.1. Caiff y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu hethol bob blwyddyn yn y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd yn syth ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

3.12.2. Gall y Cadeirydd ddal ei swydd am gyfnod olynol heb fod yn fwy na thair blynedd, ond gall ddewis sefyll i lawr ar unrhyw amser. Gall y Cadeirydd sefyll am ail dymor yn y swydd (o dair blynedd) os dymuna.

3.12.3. Gall y Dirprwy Gadeirydd, ond nid o reidrwydd, gael ei ethol i'r Gadair pe byddai'r Cadeirydd presennol yn sefyll i lawr. I sicrhau rhyw raddfa o barhad ar olyniaeth, disgwylir i'r Dirprwy Gadeirydd a etholir i'r rôl honno ym mlwyddyn olaf tymor y Cadeirydd yn y swydd i ddod yn Gadeirydd y flwyddyn ddilynol (yn amodol ar broses briodol yn y CCB).

3.12.4. Lle mae'r Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd yn Denantiaid ni chânt fod yn swyddog (e.e. Cadeirydd) unrhyw grŵp tenantiaid ffurfiol neu anffurfiol o'r Gymdeithas (e.e. Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr). Bydd y Gymdeithas yn disgwyl iddynt ymddiswyddo o swydd yn y grŵp arall fel amod o ddod yn Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd.

3.12.5. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar gyfnod aelodaeth y Bwrdd cyn sefyll etholiad i fod yn Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd.

3.13. Cefnogaeth Ariannol a Chefnogaeth arall

3.13.1. Bydd y Gymdeithas yn talu am holl dreuliau rhesymol Aelodau'r Bwrdd sydd eu hangen i'w galluogi i gyflawni eu rôl. Bydd hyn yn cynnwys - ond heb fod yn gyfyngedig i - dalu costau teithio rhesymol, llety dros nos lle bo angen, ad-dalu costau cynhaliaeth rhesymol.

3.13.2. Mewn rhai amgylchiadau bydd y Gymdeithas yn ystyried talu costau rhesymol eraill - megis cost gofal plant - i hwyluso presenoldeb mewn cyfarfodydd yn cynnwys Aelodau. Gwneir penderfyniad gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredydd os yw cais o'r fath yn rhesymol.

3.13.3. Ni thelir lwfans presenoldeb.

3.14. Deuoliaeth a Gwrthdaro Diddordeb

3.14.1. Bydd y Gymdeithas yn rhoi ystyriaeth i'w hoblygiadau statudol yn unol â **Pharagraff 2 Atodlen 1 Deddf Tai 1996.** Bydd hyn yn sicrhau nad oes gan Aelodau Bwrdd, cyflogeion a'u perthnasau agos unrhyw ddeuoliaeth neu wrthdaro diddordeb.

3.14.2. Disgwylir i Aelodau Bwrdd ddatgelu pob diddordeb ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol a fedrai ddylanwadu ar eu barn. Caiff cofrestr o ddiddordebau o'r fath a ddatgelir ei chadw ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd.

3.14.3. Disgwylir i bob Aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordeb mewn unrhyw gynllun a gynhelir neu a ystyrir gan y Gymdeithas neu unrhyw ymgynghorydd, gontractwr neu gyflenwr sy'n cael ei ddefnyddio neu ei ystyried gan y Gymdeithas. Bwriad y polisi yw sicrhau nad yw Aelodau oherwydd eu swydd neu gysylltiadau mewn mannau eraill yn cael

dylanwad amhriodol ar y Bwrdd yn ei drafodaethau nac yn sefyll i ennill unrhyw fudd o'u swydd neu gysylltiadau mewn man arall.

3.14.4. Ni all Swyddogion neu Aelodau Cyngor Sir y mae'r Gymdeithas yn delio ag ef yn gyson neu'n aml sefyll fel Cadeirydd y Gymdeithas.

3.15. <u>Cyfrinachedd</u>

3.15.1. Disgwylir i Aelodau Bwrdd werthfawrogi, a pharchu, natur gyfrinachol busnes y Gymdeithas.

3.15.2. Ni ddylai gwybodaeth a gafwyd gan neu drwy'r Gymdeithas, p'un ai tu mewn neu du allan i gyfarfodydd y Bwrdd, Bwyllgorau neu Weithgorau, gael ei thrafod gyda, na'i datgelu, i unrhyw berson neu gorff heb fod yn gysylltiedig gyda'r Gymdeithas, os na chafodd hynny ei awdurdodi'n benodol neu y gwnaed cais am hynny mewn cyfarfod Bwrdd neu Bwyllgor a'i gofnodi yn unol â hynny. Caiff unrhyw ddatgeliad heb ei awdurdodi o faterion cyfrinachol ei ystyried fel bod yn torri ymddiriedaeth a gall arwain at symud aelod o'r Bwrdd.

3.16. <u>Cyfethol</u>

3.16.1. Gall unigolion eraill, o bryd i'w gilydd, cael eu cyfethol i'r Bwrdd (a Phwyllgorau/Gweithgorau). Gellir penodi aelodau cyfetholedig i:

- Lenwi swyddi gwag achlysurol ar y Bwrdd;
- Darparu sgiliau ychwanegol lle dynodwyd bwlch mewn sgiliau angenrheidiol drwy'r gwerthusiad o Aelodau Bwrdd.

3.17. Gall Aelodau a gyfetholwyd fynychu unrhyw neu holl gyfarfodydd y Bwrdd a gall gymryd rhan ym mhob trafodaeth a phleidleisio ar unrhyw fater heblaw materion a waharddwyd gan Reolau'r Gymdeithas.

3.17.1 Ni all Aelodau a gyfetholir gymryd rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar swyddogion y gymdeithas nac unrhyw faterion yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfranddeiliaid.

3.17.2 Ni fydd aelodau cyfetholedig sy'n bresennol yn cyfrif tuag at gworwm.

3.18. <u>STRWYTHUR PWYLLGOR</u>

3.19. Gall y Bwrdd Rheoli ddirprwyo rhai cyfrifoldebau neu dasgau i Bwyllgor. Gall y rhain fod yn bwyllgor(au) sefydlog neu'n Bwyllogor *ad hoc* a sefydlwyd ar gyfer tasg benodol. Bydd gan bob Pwyllgor gylch gorchwyl wedi'i nodi'n glir.

3.20. <u>Ethol Cadeirydd Pwyllgor(au)</u>

3.20.1. Etholir y Cadeirydd yn flynyddol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor hwnnw yn syth ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

3.20.2. Gall y Cadeirydd ddal swydd am gyfnod olynol heb fod yn fwy na thair blynedd, ond gall ddewis sefyll i lawr ar unrhyw amser. Gall y Cadeirydd sefyll am ail dymor yn y swydd (o dair blynedd) os yw'n dymuno.

3.20.3. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar ba mor hir y mae person yn aelod o'r Bwrdd cyn sefyll i fod yn Gadeirydd Pwyllgor.

3.21. <u>Pwyllgor Craffu</u>

3.21.1. Mae gan y Gymdeithas un pwyllgor sefydlog, y **Pwyllgor Craffu.** Rhoddir manylion y cylch gorchwyl yn y Rheolau Sefydlog.

3.21.2. Ffurfir y Pwyllgor Craffu gan bump Aelod o'r Bwrdd.

3.21.3. Bydd y Pwyllgor Craffu yn cwrdd yn fisol, ond gall ei ganslo ar ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Craffu os yw'n credu nad oes digon o faterion i haeddu galw cyfarfod.

3.21.4. Ni all Cadeirydd y Bwrdd fod yn aelod o'r Pwyllgor Craffu.

4. <u>GWEITHGORAU</u>

4.1. Gall y Bwrdd o bryd i'w gilydd sefydlu gweithgorau (neu grwpiau "gorchwyl a gorffen") ar gyfer ystyried materion penodol. Gall, ond nid yw'n rhaid, iddynt gynnwys swyddogion ac Aelodau.

4.2. Ni chaiff unrhyw bwerau eu dirprwyo i Weithgorau ond byddant yn cyfeirio argymhellion i Fwrdd Rheoli'r Gymdeithas neu i'r Pwyllgor priodol, fel y cytunwyd pan y'u sefydlwyd.

4.3. Caiff cylch gorchwyl neu gwmpas unrhyw Weithgor ei sefydlu gan y Bwrdd.

5. <u>IS-GWMNÏAU (YN CYNNWYS GOFAL A THRWSIO YM MHOWYS)</u>

5.1. Bydd y Gymdeithas yn rheoli ei is-gwmni (neu is-gwmnïau) drwy sicrhau y gall o fewn rheolau'r is-gwmnïau hynny enwebu mwyafrif yr Aelodau o bwyllgorau'r cwmni hwnnw sydd â phleidlais.

5.2. Ni fydd fel arfer yn llenwi'r holl leoedd gwag hynny os nad oes angen iddo weithredu rheolaeth i ddiogelu enw da a/neu sefydlogrwydd ariannol yr is-gwmni a/neu'r grŵp.

5.3. Fel arfer bydd yn enwebu dau Aelod o'r Bwrdd ynghyd ag un ai'r Prif Weithredydd neu Ysgrifennydd y Cwmni.

<u>Prif Feysydd Perfformiad</u>

A. Gwerthusiad bob dwy flynedd o Aelodau Bwrdd.

B. Yr amser a dreulir gan y Bwrdd (a'r Pwyllgorau) ar faterion strategol i beidio bod yn llai na'r targed blynyddol a gytunwyd. Perfformiad i gael ei fesur a'i fonitro gan y Prif Weithredydd fydd yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd.

C. Presenoldeb yn y Bwrdd (a'r Pwyllgorau) i beidio bod yn llai na'r targed blynyddol a gytunwyd. Perfformiad i gael ei fesur a'i fonitro gan y Prif Weithredydd fydd yn rhoi adroddiad i'r Bwrdd bob blwyddyn.

Ch.Cadw cofnod o ddatganiadau blynyddol o ddiddordeb.

Cyfeirnod:	Polisi'r Bwrdd - V3 (August 2010)	
Diben:	Sicrhau fod gan y Gymdeithas strwythur sy'n galluogi ei Aelodau i ddarparu cyfeiriad strategol cyffredinol i'r Gymdeithas, tra'n cynnal graddfa uchel o uniondeb.	
Dyddiad Cyhoeddi:	Awst 2010	
Dyddiad Adolygu	Mehefin 2012	
Adrannau/ Unedau yr Effeithir Arnynt	Cyfan	
Cymeradwywyd gan:	Dyddiad y Bwrdd - 19 Mai 2010	
Swyddog Arweiniol:	Prif Weithredydd	
Cydymffurfiaeth Statudol	• Paragraff 2 Atodlen 2 Deddf Tai 1996 • Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 • Rheolau Model 2005 (Diwygiwyd)	
Ffactorau Risg Strategol	i) Y bydd y Gymdeithas yn methu recriwtio na chadw Aelodau Bwrdd gyda sgiliau priodol ii) Y bydd safon llywodraethu yn methu cyrraedd safon disgwyliedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill.	
Archwiliad ar Effaith Cydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	• Mae'n cyflwyno fframwaith clir a theg ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno bod yn Aelod o'r Bwrdd • Mae'n sefydlu set glir o reolau ar gyfer Aelodau, gan sicrhau na ellir gosod tueddiad anfwriadol am ba bynnag reswm
	A deimlir y gallai'r Polisi hwn	• Cafodd y Polisi ei ysgrifennu

	fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau? Os felly beth yw'r cyfiawnhad ar gyfer hyn ac ac a gaiff hynny ei ganiatáu'n gyfreithiol?	mewn ffordd mor niwtral ag sydd modd er mwyn peidio rhoi unrhyw sector dan anfantais drwy amryfusedd. • Yn ystod 2009/10 cynhaliodd y Gymdeithas arolwg STATUS oedd hefyd yn proffilio ei denantiaid. Defnyddir y data yma i asesu os yw Aelodaeth Bwrdd yn gynrychioladol. Y flaenoriaeth gyntaf yw gwella cynrychiolaeth ddaearyddol a cheisio Aelodau iau.
	A ofynnwyd i unrhyw grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly beth oedd y canlyniad?	Na.
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Ei nod yw sicrhau bod cyfran o Aelodau Bwrdd yn Denantiaid.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	• Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar denantiaid. • Yn anuniongyrchol caiff tenantiaid eu cynrycholi'n well yn ystod y broses benderfynu.
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	• Ni ymgynghorwyd yn uniongyrchol â thenantiaid. • Cytunodd y Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr ar y Polisïau a Gweithdrefnau i gael eu hadolygu y dymunai gael ymgynghori arnynt yn ystod y flwyddyn, a phenderfynwyd nad oedd hyn yn y dymunai gael ymgynghori arno.